Llythyr 6/ Letter 6 Ysgol Gymraeg Gwenffrwd 10-10-22

Annwyl Rieni a Gwarcheidwaid: Dear Parents and Guardians'

Diolch o galon am eich cefnogaeth wrth i'r plant yfed dŵr o'u poteli newydd- a mor braf yw gweld pawb bron, yn manteisio ar y Cinio Ysgol sydd am ddim, yn y Dosbarth Derbyn. Isod, mae rhestr gwybodaeth a dyddiadau pethau o bwys i ni fel Ysgol, ar gyfer eich dyddiaduron.

We are so pleased that our pupils are using their new water bottles to drink water while they learn at school and thank you as parents for your support. It is also lovely to see practically all pupils in the Dosbarth Derbyn, taking up the Welsh Government's offer for a free school meal on a daily basis; brilliant! Below, please see other initiatives that are important to us as a school, as well as dates for your diaries'.

| | | |
|---|---|---|
| Mis Hanes Pobl Dduon - Rydym fel ysgol yn cefnogi pob menter sydd yn cefnogi cydraddoldeb ac yn amlygu cyfraniadau pobl o bob cefndir. Rydym yn cynnwys polisi a stratagaethau gwrth-hiliaeth ac yn addysgu ein disgyblion am hawliau'r unigolyn a pharch at gyd-ddyn, fel rhan o'n cwricwlwm. Rydym yn cefnogi ymgyrch Stonewall Cymru- 'Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth' y mis hwn, ac am ddefnyddio Diwrnod Di-wisg Ysgol y GRhA i gefnogi'r ymgyrch- drwy ofyn i bawb wisgo rhywbeth sy'n COCH os yn bosib ar y diwrnod hwn. Diolch. | 28-10-22 | Black History Month- As a school we support ALL initiatives (such as this one by the government/ BBC etc) which celebrates contributions made. We incorporate anti-racism policies and information for our pupils as part of our Curriculum at Gwenffrwd. To support the Stonewall Cymru 'Show Racism the Red Card' day we will use our PTA non-uniform day at the end of this half term- to ask everyone to wear something that is RED. Diolch |
| DIOLCHGARWCH: Cefnogi Banc Bwyd Treffynnon' er mwyn cefnogi ein cymuned leol. Gofynnwn am gyfraniadau penodol (bydd rhestr i ddilyn) ar gyfer y prosisect hwn. Gan fod costau byw mor anodd ar hyn o bryd, does dim pwysau ar neb i gyfrannu. Bydd cyfle i rieni a ffrindiau ddod i Neuadd Fawr | 18-10-22 @ 9-15am Neuadd Fawr Main Hall | Thanksgiving contributions and invite to a Song and Prayer assembly in the Main Hall (for approx. 20-30 mins). It is lovely to be able to open our doors once again to parents and friends, to listen to the pupils sharing a few hymns of thanks. We are |

| | | |
|---|---|---|
| Gwenffrwd fore Mawrth Hydref 18fed i ollwng cyfraniadau a/neu wrando ar y disgyblion yn rhannu ambell emyn a gweddi o ddiolch yn Nhymor Diolchgarwch- cewch gyfle i ddod â'ch cyfraniadau i'r Neuadd ar y bore hwn neu anfon gyda'ch plentyn 17/ 18fed cyfnod byr o tua 20-30 munud fydd y canu yn y neuadd. | | supporting our local community Food Bank this year and will ask for specific donations please (a list will follow). As we are in a current Cost of Living crisis, there is NO pressure on anyone to contribute. For those who can contribute, you can place your donations in the hall on the 18th or send to school with your child on the 17/ 18th. |
| Nosweithiau Rhieni: wythnos 24-27ain Hydref: Bydd rhieni yn cael dewis cyfarfod ar-lein neu wyneb-yn-wyneb y tro hwn- mwy o fanylion i ddilyn. | W'snos week Hydref/ Ocober 24- 27 | Parents' Evenings will be held and you will choose either to meet on-line or face-to-face. More info will follow. |
| Llyfr gan y Llywodraeth i gofio Jiwbili y Frenhines y ddiweddar 2022- rydym wedi cael neges i ddweud y bydd pob disgybl/ teulu yn derbyn llyfr i gofio. | Yn fuan -delivery imminent | We have received a message from the Government that a Jubilee commemorative book will be donated to every pupil/ family. |
| Diwedd yr hanner tymor | 28-10-22 | End of this half term |
| Ysgol yn agor I BAWB- Disgyblion a Staff | 07-11-22 | School re-opens for EVERYBODY- pupils and staff. |

Diolch am eich cefnogaeth / Thank you for your support

*M Iola Owen*

Pennaeth / Headteacher